# Defnyddio Gwybodaeth Perfformiad; Persbectif a Chanlyniadau Defnyddwyr Gwasanaeth

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Gwybodaeth am safbwynt defnyddiwr y gwasanaethDylai'r Cyngor sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i'w uwch arweinwyr yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth. Dylai'r Cyngor sicrhau bod y wybodaeth hon yn dod o amrywiaeth ei ddefnyddwyr gwasanaeth. | Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 30/06/2024 | | Diana Davies / Cathryn Morgan | Cafodd ein polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Hydref 2022. Mae 12 cam gweithredu allweddol wedi'u clystyru o dan 4 nod ar wahân. Bydd adroddiad blynyddol ar y cynnydd yn cael ei gyflwyno gan yr aelod Cabinet, y Cynghorydd Matthew Vaux i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ac i'r Cabinet cyn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gan yr uwch arweinwyr drosolwg da o'r ffordd yr ydym yn rheoli ymgysylltu a chyfranogiad o ran materion y Cyngor. Bydd y polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad yn cael ei adolygu yn 2025 ac mae'n debygol y bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys set newydd o gamau gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i wella ein harferion. |
| | | Sicrhau bod gwybodaeth perfformiad ar bersbectif defnyddwyr y gwasanaeth o weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori yn cael eu hadrodd i uwch arweinwyr. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/12/2024 | | Grwp Arweinyddol drwy Alun Williams | Mae canlyniadau ein hymgyrchoedd ymgynghori yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau lle mae angen penderfyniad gan y Cabinet. Mae persbectif y defnyddiwr hefyd yn cael ei ddefnyddio i fwydo Asesiadau Effeithiau Integredig lle bo'n berthnasol. Bydd canlyniadau'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol (sydd ar y gweill ar hyn o bryd yng Ngheredigion Awst – Hydref) yn cael eu cyflwyno i'r uwch arweinwyr i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau. |
| | | Defnyddio gweithrediad diweddar Fy Nghyfrif a thechnolegau digidol eraill, megis rhwydwaith LoRaWAN y Cyngor, i gasglu adborth a data pellach ar brofiad cwsmeriaid ar y pwynt cyswllt a'r defnydd o wasanaethau'r Cyngor. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/03/2025 | | Grwp Arwain | Arolwg cwsmeriaid yn cael ei ddatblygu ar gyfer Fy Nghyfrif a Clic |
| | | Archwilio prosiect cynnwys posibl a fyddai'n dod a'r gwaith ar gryfhau ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion at ei gilydd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, y gwaith gyda Data Cymru ar ddatblygu'r Arolwg Cymru Gyfan cenedlaethol a grwp i ddod â mewnwelediadau at ei gilydd ar draws y Cyngor. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 30/06/2025 | | Tîm Ymgysylltu a Chynhwysiant / Tîm Perfformiad | Mae tîm bach o swyddogion 'Prosiect Cynnwys' wedi'i sefydlu i ddatblygu a chyflwyno'r prosiect ynghyd â chynllun gweithredu. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd Mewnwelediadau, a fydd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol, ym mis Medi 2024. Mae'r Cylch Gorchwyl wedi'i ddrafftio, mae'n cynnwys is-bennawd 'Defnyddio data ac adborth cwsmeriaid i wella ein gwasanaethau' a bydd yn cael ei gytuno arno yn y cyfarfod cyntaf. Mae agenda arfaethedig y cyfarfod yn cynnwys cyflwyniad ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol i Gymru, adroddiad Ymgysylltu a Chyfranogiad 2023-24, ac adroddiad ar y nifer a'r math o gysylltiadau drwy Clic/Fy Nghyfrif yn ogystal â chyflwyniad ar ddefnydd potensial o LoRaWAN (Long Range Wide Area Network). |
| A2 | Gwybodaeth am gynnydd tuag at ganlyniadauDylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'i ganlyniadau arfaethedig. | Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a Rheolwyr Corfforaethol i ddatblygu a nodi mesurau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn dangos cynnydd o ran cyflawni amcanion a chanlyniadau a fwriadwyd. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/03/2025 | | Grwp Arweinyddol drwy Alun Williams | Mae'r tîm yn parhau i gefnogi'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r Rheolwyr Corfforaethol wrth osod eu mesurau perfformiad. Mae hyn yn weithgaredd sy'n parhau, a chyda nifer o newidiadau wedi'u wneud i gryfhau'r mesurau ar gyfer Cynlluniau Busnes Lefel 1, yng nghyd-destun cadernid cyffredinol a mesur deilliannau. Fel rhan o'r broses Cynllunio Busnes newydd yn yr hydref, byddwn yn darparu cefnogaeth ychwanegol ar ganlyniadau a gosod mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau a fydd yn cynnwys gweithdy Rheolwyr Corfforaethol a hyfforddiant canlyniadau. |

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Strategaethau, targedau ac adroddiadau ar berfformiad lleol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu Ym Mharagraffau 2.13 - 2.23 a Pharagraffau 3.33 - 3.35 rydym yn amlygu bod cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond bod y cymysgedd o ddulliau a thirwedd cyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n eang. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod gwerthuso gweithgarwch a'r modd yr adroddiad ar berfformiad hefyd yn amrywiol gyda llawer o fylchau. Rydym ni'n argymell bod y cynghorau'n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i'r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi'r targedau a'r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig. Dylai hyn• gynnwys camau gweithredu lleol CAMPUS gyda mwy o bwyslais ar atal;• cynnwys cynllun adnoddau manwl ar gyfer oes y strategaeth;• cael ei ddatblygu gydag ymwneud gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a'r rhai sydd â phrofiad o dlodi;• cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniadau cyson i gynyddu dealltwriaeth am dlodi yn lleol; a• bod yn destun adroddiadau cyhoeddus blynyddol er mwyn gallu bod â golwg system gyfan ar dlodi'n lleol i helpu i wella'r broses gyflawni a chymorth. | Diweddaru Canllawiau Cynllunio Busnes ar gyfer 2024/25 i ddarparu cymorth pellach ar gyfer gosod mesurau perfformiad, yn enwedig mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Alun Williams | Cyflwynir adroddiad blynyddol bob hydref ar Fynd i'r Afael â Thlodi, sy'n cynnwys camau gweithredu lleol ac mae'n cael ei ddatblygu a'i weithredu gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19.10.23 ac i'r Cabinet ar 07.11.23. |
| A3 | Arweinyddiaeth ar yr agenda tlodi Ym Mharagraff 2.23 rydym yn nodi bod gan ychydig dros draean o'r cynghorau aelodau arweiniol a swyddogion arweiniol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. O ystyried pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol i yrru'r agenda tlodi yn ei blaen a thorri seilos o fewn cynghorau a rhwng cyrff cyhoeddus, rydym yn argymell bod pob cyngor yn dynodi aelod cabinet fel hyrwyddwr tlodi'r cyngor ac yn dynodi uwch swyddog i arwain a bod yn atebol am yr agenda wrthdlodi. | Mae'r Cynghorydd Elaine Evans wedi'i dynodi'n Eiriolwr yn erbyn Tlodi ar gyfer y Cyngor ac yn Is-Gadeirydd Is-grwp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Cynghorydd Catrin Davies wedi'i dynodi'n Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Cyngor ac mae'n cadeirio Is-grwp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Alex Jenkins | Dim angen gweithredu pellach |

## Adolygiad Strategaeth Ddigidol

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Er mwyn helpu i sicrhau bod strategaeth ddigidol nesaf y Cyngor yn cefnogi cyflawni ei amcanion ac yn sicrhau gwerth am arian, wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor: • ennill dealltwriaeth o anghenion dinasyddion trwy eu cynnwys wrth ddylunio ei strategaeth nesaf; ac• adolygu ei strategaeth ddigidol flaenorol gan gynnwys ei threfniadau llywodraethu, monitro ac adrodd i lywio trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei strategaeth nesaf i gynnwys ei galluogi i;? monitro ei effaith; ? monitro i ba raddau y mae'n darparu gwerth am arian; ac ? asesu os yw'r buddion a fwriedir yn cael eu gwireddu. | Bydd ymgynghoriad ar ein strategaeth ddigidol nesaf yn cael ei gynnal | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/12/2024 | ★ | Alan Morris | Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng 14 Mai a 9 Gorffennaf. Bydd angen i'r Pwyllgor Craffu perthnasol weld yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd angen i'r cyfarfod hwnnw gael ei gynnal yn yr hydref cyn i'r Cabinet gymeradwyo'r strategaeth yn derfynol. |
| | | Mae gwaith yn parhau i adolygu ein strategaeth flaenorol a bydd y gwaith hwn, ynghyd ag argymhellion Archwilio Cymru, yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r strategaeth a'r trefniadau llywodraethu sydd ynghlwm wrthi. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/12/2024 | ★ | Alan Morris | |

## Craciau yn y Sylfeini_Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurder ynghylch gweithredu a disgwyliadau'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau newydd. Dylai hyn gynnwys:• egluro'r gofynion manwl ar gyfer cymhwysedd a chofrestru er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn;• amserlen benodol ar gyfer datblygu a mabwysiadu canllawiau ar gyfer Cymru i sicrhau y gall awdurdodau lleol ac eraill gyflawni eu dyletswyddau; a• dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, fel LABC Cymru, i roi cymorth i ddeall y canllawiau a'u rhoi ar waith pan gânt eu cyhoeddi. | Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol. | Amherthnasol | 30/09/2023 | 30/09/2023 | ✔ | | |
| A2 | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau i gyflawni'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi ar gyfer Diogelwch Adeiladau er mwyn lleihau risgiau i'w rhoi ar waith. | Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol. | Amherthnasol | 30/09/2023 | 30/09/2023 | ✔ | | |
| A3 | Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull marchnad gymysg o reoli adeiladu a dod i'r casgliad pa un a yw'n parhau i fod yn briodol ac yn effeithiol o ran cadw adeiladau yng Nghymru'n ddiogel. Dylai'r adolygiad hwn:• asesu'r sefyllfa fel ag y mae yn erbyn newidiadau posibl, megis y model cyflawni yn yr Alban;• bod wedi'i fframio ar sail dadansoddiad SWOT o gostau, manteision, bygythiadau a risgiau; • manteisio ar ymchwil sy'n bodoli eisoes i adnabod arfer da; a• chael ei gyhoeddi gan gytuno ar ffordd ymlaen. | Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol. | Amherthnasol | 30/09/2023 | 30/09/2023 | ✔ | | |
| A4 | Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei gwaith i oruchwylio a rheoli'r sector rheoli adeiladu er mwyn sicrhau bod system sicrwydd gadarn ar waith ar gyfer rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau trwy:• greu fframwaith perfformiad cenedlaethol gyda safonau gwasanaeth eglur i hybu cysondeb o ran y gwasanaeth. Dylai hyn hefyd gynnwys mesurau deilliant i fonitro perfformiad a fframwaith gwerthuso ac adrodd ar gyfer craffu. • datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau i fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sector. Dylai hyn gynnwys casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd, yn ogystal â chwmpasu blaenoriaethau, megis:- mwy o ffocws ar hyfforddeion i liniaru risgiau i olyniaeth;- sefydlu rolau swyddi cenedlaethol, cyson sy'n cyfateb i lefelau cymhwysedd; - cynyddu amrywiaeth y sector i sicrhau ei fod yn adlewyrchu Cymru fodern; a- dylid ystyried cyllid penodol hefyd i alluogi syrfewyr i ennill a chynnal cymhwysedd. • dylai Llywodraeth Cymru archwilio gyda'r sector addysg bellach sut orau i ddarparu hyfforddiant rheoli adeiladu yng Nghymru i roi cymorth i gynllunio ar gyfer olyniaeth, datblygu sgiliau a sicrhau cymhwysedd. | Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol. | Amherthnasol | 30/09/2023 | 30/06/2023 | ✔ | | |

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A5 | Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai'r Cynlluniau:• fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol ac yn cynnwys camau lliniaru; • nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau rheoli adeiladu i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol; • dangos rôl allweddol rheoli adeiladu o ran sicrhau adeiladau diogel a bod yn gysylltiedig ag amcanion llesiant ac amcanion corfforaethol eraill; a • chynnwys mesurau deilliant sy'n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheoli adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig. | Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sefydlu Gweithgor a fydd yn datblygu cynllun ar gyfer yr Adran Rheoli Adeiladu er mwyn sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd hyn yn rhoi ystyriaeth lawn i natur y diwydiant adeiladu yng Ngheredigion ac anghenion y boblogaeth leol, a bydd yn darparu gwasanaethau yn unol â gofynion y safonau gweithredu newydd ar gyfer rheoli adeiladu yng Nghymru ac amcanion corfforaethol yr awdurdod. | Derbyniwyd | 30/09/2023 | 30/03/2024 | ✔ | Roger Turner / Sarah Groves-Phillips | Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gweithredu gofynion Deddf Diogelwch Adeiladu 2022, ac mae pob Swyddog Rheoli Adeiladu cofrestredig wedi sefyll arholiadau'r fframwaith cymhwysedd ac wedi llwyddo ar y lefel y gwnaed cais amdani. Mae'r Awdurdod lleol wedi datblygu Cynllun Gweithredu Lleol, mae copi ohono ynghlwm sy'n amlinellu'r risgiau a'r mesurau lliniaru sy'n amlwg yn y gwasanaeth Rheoli Adeiladu. |
| A6 | Dylai awdurdodau lleol fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:• sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau; • adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r Rheoliadau; • sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a• diwygio ffioedd i sicrhau y codir am wasanaethau yn unol â'r Rheoliadau. | Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu holl elfennau ein rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010. | Derbyniwyd | 30/09/2023 | 31/03/2025 | ★ | Roger Turner / Sarah Groves-Phillips | Mae'r Cyngor yn adolygu agweddau ar ein rheolaeth ariannol o Reoli Adeiladu er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu 2010 (Taliadau Awdurdodau Lleol). Mae adolygiad wedi'i gynnal yn flaenorol yn unol â Chodau Ymarfer CIPFA. Os bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn arwain ar yr angen i newid strwythur ffioedd y gwasanaeth, yna mae hyn yn debygol o ddod i rym ar gyfer y cyfnod gosod ffioedd nesaf (h.y. yn barod ar gyfer blwyddyn ariannol 25/26) ynghyd ag unrhyw newidiadau, fel sy'n ofynnol, i gyhoeddi gwybodaeth ariannol Rheoli Adeiladu. |
| A7 | Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig trwy archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio a rhanbartholi i gryfhau cydnerthedd trwy ddadansoddiad cost a budd o bartneru gydag awdurdodau cyfagos, sefydlu cyd-fentrau a / neu fabwysiadu model rhanbarthol lle y bo hynny'n fuddiol. | Sir wledig yw Ceredigion ac er nad yw'n unigryw mae'n wahanol iawn i'r awdurdodau mwy poblog sy'n llai yn ddaearyddol a geir yn y gogledd ac yn benodol yn ne'r wlad. Yn gyffredinol, mae'r canolfannau poblogaeth wedi'u lleoli i ffwrdd o'r ffiniau mwy gwledig ag awdurdodau cyfagos. Mae'r amgylchiadau hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i gydweithio'n drawsffiniol ar swyddogaethau sy'n 'seiliedig ar safleoedd'. Efallai y bydd cyfleoedd yn codi i gydweithio ar ddigwyddiadau hyfforddi a gwirio cynlluniau. Mae'r olaf o'r rhain eisoes yn digwydd i raddau oherwydd ymddengys fod mwyafrif yr awdurdodau wedi cofrestru ar gynllun Partneriaeth Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol a byddai gwelliant pellach yn bosib lle bo hynny'n ymarferol. Rhagwelir y byddai angen cymorth trawsffiniol os bydd unrhyw Adeiladau Risg Uchel yn cael eu hadeiladu yn y sir, oherwydd y diffyg arbenigedd yn y maes hwn. | Derbyniwyd | 30/09/2023 | 31/03/2025 | ★ | Roger Turner | Mae'n debyg bod manteision gwasanaethau a rennir yn fwy amlwg mewn amgylcheddau trefol fel de Cymru nag yng nghefn gwlad Ceredigion. Byddai gweithio trawsffiniol, o ran adolygiadau yn anodd oherwydd daearyddiaeth ac agosatrwydd Ceredigion at ganolfannau trefol. Mae cymorth gyda swyddogaeth gwirio'r Cynllun, sy'n broses ar-lein yn bennaf, yn fwy ymarferol ond mae rhesymau dilys i swyddogion gynllunio safleoedd gwirio y byddant yn eu harchwilio yn ddiweddarach. Mae Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC) yn ymgynghori'n fewnol ar hyn o bryd ar adroddiad sy'n amlinellu'r modelau darparu posibl ar gyfer Rheoli Adeiladu. Mae hyn yn cynnwys cynnal rheolaeth 'fewnol', 'gweithio gwasanaeth a rennir', 'cwmnïoedd perchnogaeth lwyr', 'Cydfuddiannol' a modelau 'Allanol' posibl. Mae'r ddogfen hon yn cael ei hastudio a'i thrafod ar hyn o bryd gan adrannau Rheoli Adeiladu ledled Cymru gyda'r bwriad o archwilio'n llawn y cyfleoedd cydweithio sydd ar gael. Yn wyneb y sgwrs genedlaethol barhaus ar y mater hwn ni fyddai'n ddoeth gwneud penderfyniad ar sut i ddiwygio'r model presennol ond ar ôl cyhoeddi'r llwybrau a argymhellir ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu ac yn adeiladu ar yr argymhellion lle bo'n briodol. |
| A8 | Dylai awdurdodau lleol adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi'n systematig, eu cofnodi, eu hasesu, eu lliniaru ac yn amodol ar werthuso a chraffu rheolaidd. | Cyhoeddi Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg wedi'u diweddaru erbyn mis Ionawr 2024. | Derbyniwyd | 30/09/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Rob Starr | Cyhoeddwyd Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg sydd newydd eu diweddaru a'u mabwysiadu gan yr Awdurdod Lleol ym mis Chwefror 2024 ac mae'r holl Swyddogion Rheoli Adeiladu wedi cael gwybod amdanynt a gofynnwyd iddynt gydymffurfio â'r adrannau perthnasol. |

## Amser am Newid-Tlodi yng Nghymru

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Strategaeth genedlaethol a thargedau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu Ym Mharagraffau 2.8 - 2.12 rydym yn nodi nad oes targed penodol ar gyfer lleihau tlodi yng Nghymru ar hyn o bryd a bod angen diweddaru'r strategaeth Tlodi Plant bresennol. Rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru, wrth ddiweddaru eistrategaeth:<br>• yn pennu camau gweithredu cenedlaethol CAMPUS;<br>• yn sefydlu cyfres o fesurau perfformiad i farnu'r modd y'i cyflawnir a'i heffaith;<br>• yn gosod targed ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu; ac<br>• yn mynd ati'n rheolaidd i gynnal gwerthusiad o berfformiad a chyhoeddi adroddiadau cyhoeddus | Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol | Amherthnasol | 30/09/2023 | 30/09/2023 | ✔ | | |
| A2 | Strategaethau, targedau ac adroddiadau ar berfformiad lleol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu Ym Mharagraffau 2.13 - 2.23 a Pharagraffau 3.33 - 3.35 rydym yn amlygu bod cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond bod y cymysgedd o ddulliau a thirwedd cyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n eang. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod gwerthuso gweithgarwch a'r modd yr adroddiad ar berfformiad hefyd yn amrywiol gyda llawer o fylchau. Rydym ni'n argymell bod y cynghorau'n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i'r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi'r targedau a'r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig. Dylai hyn• gynnwys camau gweithredu lleol CAMPUS gyda mwy o bwyslais ar atal;• cynnwys cynllun adnoddau manwl ar gyfer oes y strategaeth;• cael ei ddatblygu gydag ymwneud gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a'r rhai sydd â phrofiad o dlodi;• cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniadau cyson i gynyddu dealltwriaeth am dlodi yn lleol; a• bod yn destun adroddiadau cyhoeddus blynyddol er mwyn gallu bod â golwg system gyfan ar dlodi'n lleol i helpu i wella'r broses gyflawni a chymorth. | Diweddaru Canllawiau Cynllunio Busnes ar gyfer 2024/25 i ddarparu cymorth pellach ar gyfer gosod mesurau perfformiad, yn enwedig mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Alun Williams | Cyflwynir adroddiad blynyddol bob hydref ar Fynd i'r Afael â Thlodi, sy'n cynnwys camau gweithredu lleol ac mae'n cael ei ddatblygu a'i weithredu gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19.10.23 ac i'r Cabinet ar 07.11.23. |
| A3 | Arweinyddiaeth ar yr agenda tlodi Ym Mharagraff 2.23 rydym yn nodi bod gan ychydig dros draean o'r cynghorau aelodau arweiniol a swyddogion arweiniol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. O ystyried pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol i yrru'r agenda tlodi yn ei blaen a thorri seilos o fewn cynghorau a rhwng cyrff cyhoeddus, rydym yn argymell bod pob cyngor yn dynodi aelod cabinet fel hyrwyddwr tlodi'r cyngor ac yn dynodi uwch swyddog i arwain a bod yn atebol am yr agenda wrthdlodi. | Mae'r Cynghorydd Elaine Evans wedi'i dynodi'n Eiriolwr yn erbyn Tlodi ar gyfer y Cyngor ac yn Is-Gadeirydd Is-grwp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Cynghorydd Catrin Davies wedi'i dynodi'n Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Cyngor ac mae'n cadeirio Is-grwp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Alex Jenkins | Dim angen gweithredu pellach |

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd rhaglenni sy'n cael eu hariannu â grantiau Ym Mharagraffau 2.31 - 2.38 rydym yn nodi bod yr holl gynghorau'n ddibynnol ar grantiau ond bod gwendidau mewn rhaglenni'n golygu nad yw cyllid yn cael yr effaith y gallai ei chael. Er mwyn sicrhau bod cynghorau'n gallu manteisio i'r eithaf ar effaith cyllid a mynd i'r afael â'r problemau anos a hirsefydlog, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:<br>• ddarparu amserlenni hwy ar gyfer cyhoeddi a chael cynigion i'w gwneud yn bosibl cynllunio adnoddau'n well;<br>• newid o gylchoedd cynigion blynyddol i ddyraniadau amlflwyddyn;<br>• ei gwneud yn bosibl gwario cyllid yn fwy hyblyg er mwyn osgoi pwyslais ar brosiectau cyflymach, yn hytrach nag ymyriadau sy'n cael mwy o effaith ac sy'n cymryd mwy o amser i'w sefydlu;<br>• caniatáu i gynghorau gydgrynhoi cyllid i leihau biwrocratiaeth;<br>• symleiddio prosesau ac amodau grant i leihau'r baich gweinyddol; a<br>• chyfyngu i'r eithaf ar geisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol gan gynghorau. | Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol | Amherthnasol | 30/09/2023 | 30/09/2023 | ✔ | | |
| A5 | Mapio profiadau i greu gwasanaethau cynhwysol i bobl mewn tlodi Ym Mharagraffau 3.2 - 3.6 rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl mewn tlodi yn aml mewn argyfwng, yn ymdrin â materion personol a materion sy'n llawn straen, ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth gan gynghorau oherwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Rydym yn argymell bod cynghorau'n gwella eu dealltwriaeth am 'brofiad personol' eu trigolion trwy eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau gan 'fapio profiadau' a/neu ddefnyddio 'Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi' i adolygu a gwella hygyrchedd gwasanaethau'r cyngor a'r defnydd ohonynt. | Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth ymgysylltu a chyfranogi newydd yn ddiweddar sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac sy'n hyrwyddo a chefnogi arfer da. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi profiad byw personol pobl mewn tlodi ac mae'n gweithio gyda'i bartneriaid trwy is-grwp tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i goladu profiadau dinasyddion ar draws yr holl wasanaethau, nid o fewn y Cyngor yn unig, er mwyn galluogi datblygu mentrau ar y cyd. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 30/06/2024 | ✔ | Alun Williams | Bellach, gofynnir i siaradwyr mewn cyfarfodydd o is-grwp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnwys astudiaethau achos yn dangos sut beth yw bywyd bob dydd i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Ymhlith yr enghreifftiau mae Plant Dewi sy'n darparu Bwndeli Babanod i rieni newydd sy'n byw ar incwm isel ac Age Cymru Dyfed a amlinellodd sefyllfa 3 o bobl oedrannus yr oeddent wedi'u cefnogi'n ddiweddar. Rydym hefyd wedi llunio llyfrgell o glipiau fideo ac astudiaethau achos gan y Sefydliad Joseph Rowntree, Plant yng Nghymru ac Apple. Mae hyn wedi arwain at gynllun gwaith a rennir sy'n cynnwys e-fwletin costau byw misol, rhestrau o sesiynau cynnig cyngor wyneb yn wyneb yng Ngheredigion, rhaglen o ddigwyddiadau llesiant gaeafol yn ystod gaeaf 2024 a chanolbwyntio ar ymgyrchoedd penodol, e.e. hyrwyddo Credyd Pensiwn, Bwndeli Babanod a chynllun Urddas Cyfnodol a sefydlu llyfrgell ar-lein o astudiaethau achos a phrofiad o fyw. |
| A6 | Un dudalen lanio ar y wefan ar gyfer pobl sy'n chwilio am gymorth<br>Ym Mharagraff 3.14 rydym yn tynnu sylw at yr anawsterau y mae pobl mewn tlodi yn eu hwynebu wrth geisio mynediad at wasanaethau ar-lein a digidol. Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael yr wybodaeth a'r cyngor y mae eu hangen arnynt, rydym yn argymell bod cynghorau'n optimeiddio eu gwasanaethau digidol trwy greu un dudalen lanio ar eu gwefan sydd:<br>• yn uniongyrchol hygyrch ar yr hafan;<br>• yn darparu dolenni i'r holl wasanaethau a ddarperir gan y cyngor sy'n ymwneud â thlodi; ac<br>• yn darparu gwybodaeth am waith partneriaid sy'n gallu cynorthwyo pobl mewn tlodi. | Mae tudalen Cymorth Costau Byw yn rhestru'r cymorth ariannol sydd ar gael i drigolion Ceredigion. Mae modd cael mynediad at y dudalen hon yn uniongyrchol o'n hafan. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Alun Williams / Alan Morris | Diweddarwyd ddiwethaf ar 06/11/23 ac fe'i diweddarir bob chwe mis. Dolen i'r dudalen Cost Byw https://www.ceredigion.gov.uk/resident/cost-of-living/ |

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A7 | Symleiddio a gwella gwasanaethau ymgeisio a gwybodaeth i bobl mewn tlodi Ym Mharagraffau 3.15 a 3.16 rydym yn nodi nad yw'r un cyngor wedi creu un porth i mewn i wasanaethau. O ganlyniad, mae'n rhaid i bobl gwblhau ffurflenni cais lluosog sy'n aml yn cofnodi'r un wybodaeth wrth wneud cais am wasanaethau tebyg. Rydym yn amlygu, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, bod angen i gynghorau hefyd rannu data er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Rydym yn argymell y dylai cynghorau:<br>• sefydlu safonau data a dull codio corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;<br>• cynnal archwiliad i ganfod pa ddata sy'n cael ei gadw gan wasanaethau a nodi unrhyw achosion o ddyblygu cofnodion a cheisiadau am wybodaeth;<br>• creu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau;<br>• cynnal archwiliad data i ddarparu hyfforddiant diweddaru i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data a pha ddata y gallant ac na allant ei rannu; ac<br>• adolygu a diweddaru protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data. | Mae Ceredigion wedi canoli gwasanaethau cwsmeriaid i un tîm ac wedi canoli cysylltiadau cwsmeriaid drwy Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) unigol. Mae hyn yn lleihau'r angen yn uniongyrchol i ail-esbonio materion a chasglu hanes famaterion a chefnogaeth. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 30/09/2024 | ★ | Alan Morris | Mae archwiliad data ar y gweill, ac mae tîm Rheoli Data Meistr canolog wedi'i greu ac mae'n cefnogi'r ffrwd waith gyfan hon. Mae dogfennaeth o'r holl ffynonellau data yn parhau ac yn ffurfio llyfrgell allweddol ar gyfer y tîm llywodraethu gwybodaeth. |
| A8 | Cydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol<br>Ym Mharagraffau 3.27 i 3.32 rydym yn nodi, er bod pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i bennu effaith economaidd-gymdeithasol debygol dewisiadau a phenderfyniadau polisi, bod dulliau'n amrywio ac nad ydynt bob amser yn effeithiol. Rydym ni'n argymell bod cynghorau yn adolygu eu hasesiadau effaith integredig neu ddogfennau cyfwerth er mwyn:<br>• sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol (dim byd dros 12 mis oed) i ategu dadansoddiad;<br>• sicrhau bod asesiadau effaith integredig yn casglu gwybodaeth am:<br>- weithgarwch cynnwys sy'n nodi'r rhai y mae'r gwasanaeth wedi ymgysylltu â hwy wrth benderfynu ar ei bolisi strategol megis partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a'r rhai y mae'n cyd-gynhyrchu â hwy;<br>- yr effaith gronnus/camau lliniaru i sicrhau bod yr asesiad yn ystyried materion yn eu crynswth a sut mae'n cysylltu ar draws gwasanaethau a ddarperir ar draws y cyngor;<br>- sut y bydd y cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith ac yn cymryd camau cywiro; a<br>- chynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Integredig. | Mae ein hadnodd asesu effaith integredig yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.<br>Mae'r offeryn drafft yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid, lliniaru effaith a monitro effaith y cynllun/polisi arfaethedig.<br>Mae'r canllawiau cysylltiedig yn cynnwys data cyfrifiad 2021. | Derbyniwyd | 31/12/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Alun Williams | Mae ein IIA wedi cael ei adolygu ac fe gafodd ei graffu gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 11.09.23 a'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 12.09.23. Mae hyn bellach yn cael ei ddefnyddio gan holl swyddogion y cyngor. Mae'r asesiad effaith yn ystyried effaith gymdeithasol, economaidd, newidiadau a phenderfyniadau polisi syn debygol yn ogystal ag ymgysylltu ac agweddau eraill ar y pennaeth cynaliadwyedd. Mae'r IAA hefyd yn manylu ar gamau lliniaru gweithredu. |

## Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Bwrw ymlaen â'r argymhellion a fodlonwyd yn rhannol a heb eu bodloni yn ein hadroddiad ar Wasanaethau Cynllunio 2021 er mwyn iddynt gael sylw llawn a chael eu gwreiddio'n ddiwylliannol o fewn y Cyngor. | Bydd y Cyngor yn ailsefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen i adolygu camau gweithredu ac argymhellion newydd a godwyd yn yr adroddiad.<br>Bydd y Grwp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gefnogi gan swyddogion o'r tîm Rheoli Datblygu, y tîm Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Gwasanaethau Democrataidd. | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Russell Hughes-Pickering | Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r camau gweithredu a'r argymhellion newydd a godwyd yn yr adroddiad. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 22 Mawrth 2024. Bydd rhagor o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mis Mai, mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024. Bydd angen cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn am unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad, ar ôl i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal. |
| A2 | Datblygu a gweithredu trefniant ffurfiol i adolygu a chymeradwyo'r rhesymau cynllunio perthnasol a ddarperir gan Aelodau wardiau lleol wrth gyfeirio cais cynllunio i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i sicrhau bod Aelodau a staff yn cael eu diogelu a bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ei amser ar geisiadau mwy strategol bwysig. | Y grwp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer ystyried ceisiadau i'w hadrodd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.<br>Bydd yr adolygiad yn ystyried nifer, math y ceisiadau a'r rhesymau a roddir gan yr Aelodau ar gyfer gofyn am geisiadau yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r drafodaeth ddilynol yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu.<br>Bydd y Grwp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gefnogi gan swyddogion o'r tîm Rheoli Datblygu, y tîm Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Gwasanaethau Democrataidd. | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Russell Hughes-Pickering | Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r camau gweithredu a'r argymhellion newydd a godwyd yn yr adroddiad. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 22 Mawrth 2024. Bydd rhagor o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mis Mai, mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024. Bydd angen cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn am unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad, ar ôl i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal. |
| A3 | Adolygu arferion a gweithdrefnau Panel Arolygu Safle i ddiogelu yn erbyn unrhyw ganfyddiad o ragbenderfyniad gan grwp bach o Aelodau'r Pwyllgor i sicrhau:<br>• y gwahoddir pob Aelodau Pwyllgor i ymweliadau safle;<br>• bod ymweliadau safle yn eithriadol, yn cydymffurfio â Phrotocolau Arolygu Safle ac yn cael eu defnyddio'n economaidd i sicrhau defnydd effeithlon a chymesur o adnoddau; a<br>• nodir ymweliadau safle cyn cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn unol â Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru. | Y grwp Gorchwyl a Gorffen i adolygu trefniadau'r Panel Arolygu Safle.<br>Bydd yr adolygiad yn ystyried nifer a math y ceisiadau sy'n cael eu cyfeirio at y Panel Arolygu Safle, natur yr ymweliad a thrafodaeth ddilynol yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu.<br>Bydd y Grwp Gorchwyl a Gwella yn cael ei gefnogi gan swyddogion o'r tîm Rheoli Datblygu, y Gwasanaethau Llywodraethu a Chyfreithiol a'r Gwasanaethau Democrataidd. | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Russell Hughes-Pickering | Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r camau gweithredu a'r argymhellion newydd a godwyd yn yr adroddiad. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 22 Mawrth 2024. Bydd rhagor o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mis Mai, mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024. Bydd angen cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn am unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad, ar ôl i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal. |
| A4 | Ail-bwrpasu'r ffordd y mae'r Grwp Oeri yn gweithio'n ymarferol er mwyn iddo gynnal ei bwrpas arfaethedig fel fforwm dysgu ac addysgol i Aelodau gael rhagor o wybodaeth am bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol i ategu penderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Bydd hyn yn diogelu Aelodau a swyddogion rhag unrhyw ganfyddiad o ragbenderfyniad gan grwp bach o Aelodau'r Pwyllgor. | Y grwp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r trefniant Oeri presennol.<br>Bydd yr adolygiad yn ystyried nifer a math y ceisiadau a gyfeirir at y Grwp Oeri effeithiolrwydd cyfarfodydd y Grwp Oeri a'r penderfyniadau a wneir.<br>Bydd y Grwp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gefnogi gan swyddogion o'r tîm Rheoli Datblygu, y tîm Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Gwasanaethau Democrataidd. | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Russell Hughes-Pickering | Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r camau gweithredu a'r argymhellion newydd a godwyd yn yr adroddiad. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 22 Mawrth 2024. Bydd rhagor o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mis Mai, mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024. Bydd angen cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn am unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad, ar ôl i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal. |

## Gosod amcanion llesiant

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant drwy:<br>• archwilio ffyrdd newydd o fanteisio ar amrywiaeth lawn ei phoblogaeth i lywio a chyflawni ei ALl.<br>• sicrhau bod ei MTFS wedi'i adnewyddu yn dangos sut y bydd yn rhoi adnoddau i ddarparu ei ALl newydd dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy ac i adlewyrchu unrhyw risgiau ariannol posibl i'w cyflawni yn y dyfodol.<br>• sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad datblygol yn nodi'r mesurau canlyniadau mwyaf priodol ac yn darparu monitro, adrodd a chraffu effeithiol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni ei ALl. | Adnewyddu ein rhestr rhanddeiliaid a ddefnyddiwn wrth drefnu pob ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori. | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 31/12/2023 | ✔ | Diana Davies | Mae'r rhestr rhanddeiliaid wedi'i hadnewyddu ac mae wedi'i chynnwys yn y Pecyn Cymorth Ymgysylltu ac Ymgynghori newydd. |
| | | Cynnal Arolwg Rhanddeiliaid i gael barn ein poblogaeth ar sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a sut rydym yn mesur ein cynnydd. | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 30/06/2024 | ✔ | Diana Davies | Cynhaliwyd yr Arolwg Rhanddeiliaid Corfforaethol rhwng Mehefin ac Awst 2023 yn gofyn am farn ar berfformiad cyffredinol y Cyngor, y ffordd y mae'n mesur ei berfformiad a'i gynnydd o ran cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol. Cafwyd 148 o ymatebion a chyflwynwyd yr Adroddiad Adborth i'r Grwp Arweinyddiaeth ar 22/11/2023. |
| | | Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol a bydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Medi 2023. Bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn 'amlinellu'r risgiau i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol hyn tra hefyd yn nodi sut y bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i reoli a lliniaru'r risgiau hyn dros y tymor byr i'r tymor canolig.' | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 30/06/2023 | ✔ | Duncan Hall | |
| | | Datblygu dangosfwrdd Amcanion Llesiant Corfforaethol i fonitro, adrodd a chraffu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni'r amcanion. Y Dangosfyrddau i'w cyflwyno, eu monitro a'u craffu mewn cyfarfodydd Bwrdd Perfformiad. | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 31/12/2023 | ✔ | Diana Davies | Mae'r dangosfwrdd Amcanion Llesiant Corfforaethol wedi'i greu ac mae'n rhoi crynodeb gweladwy o'r cynnydd o ran cyflawni pedwar Amcan Lles Corfforaethol y Cyngor. Mae'r dangosfwrdd hefyd yn dangos yr 'edau aur' sy'n dangos sut mae cynlluniau'n cysylltu â'i gilydd. |
| | | Diweddaru Canllawiau Cynllunio Busnes ar gyfer 2024/25 i ddarparu cymorth pellach ar gyfer gosod mesurau perfformiad, yn enwedig mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau. | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 31/03/2024 | ✔ | Diana Davies | Mae'r Canllawiau Cynllunio Busnes ar gyfer 2024/25 wedi'u diweddaru i gynnwys pwyslais ac arweiniad pellach ar osod mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd y broses cynllunio busnes yn dechrau ym mis Ionawr 2024 a bydd hyn yn cynnwys cyflwyniad i'r Rheolwyr Corfforaethol a fydd yn pwysleisio'r negeseuon hyn. Bydd y Tîm Perfformiad yn parhau i gefnogi SAC/RhC i osod mesurau cadarn ac yn benodol wrth osod mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau. |
| | Dylai'r Cyngor adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant drwy:• archwilio ffyrdd newydd o fanteisio ar amrywiaeth lawn ei phoblogaeth i lywio a chyflawni ei ALl.• sicrhau bod ei MTFS wedi'i adnewyddu yn dangos sut y bydd yn rhoi adnoddau i ddarparu ei ALl newydd dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy ac i adlewyrchu unrhyw risgiau ariannol posibl i'w cyflawni yn y dyfodol.• sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad datblygol yn nodi'r mesurau canlyniadau mwyaf priodol ac yn darparu monitro, adrodd a chraffu effeithiol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni ei ALl. | Gwaith wedi'i dargedu gyda Fforwm Anabledd Ceredigion, grwpiau LHDTC+ a grwpiau BAME er mwyn gwella perthnasoedd a chyfathrebu cyson. (Hefyd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-2028). | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 31/12/2024 | ● | Diana Davies | Mae Fforwm Anabledd Ceredigion yn cael ei hwyluso gan y Cyngor ac yn cyfarfod bob chwarter. Mae gennym restr bostio o 59 aelod sy'n cynnwys unigolion a sefydliadau. Mae presenoldeb yn ein cyfarfodydd hybrid yn isel ond yn cynyddu'n araf. Ymhlith y pynciau a drafodwyd yn ddiweddar mae Parcio, y cynllun Bathodyn Glas, budd-daliadau a chymorth cyflogaeth a chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed. Aethom i ddigwyddiad Balchder Aberystwyth 2024 i gasglu manylion cyswllt pobl sy'n dymuno ymuno â grwp LHDTC+. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol llwyddiannus ym mis Mai; dywedodd y rheiny a oedd yn bresennol fod gwir angen grwp o'r fath. Cynhelir yr ail gyfarfod ym mis Medi 2024. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i drefnu digwyddiad sy'n dathlu amrywiaeth, diwylliant a threftadaeth ym mis Hydref 2024. Rydym yn gobeithio sefydlu gwell cyfathrebu â grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol o ganlyniad i'r digwyddiad hwn. |
| | | Y Tîm Perfformiad ac Ymchwil i weithio gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a Rheolwyr Corfforaethol i ddatblygu a nodi mesurau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddangos cynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol. | Derbyniwyd | 30/06/2023 | 31/03/2025 | ● | Diana Davies | Mae'r Tîm yn parhau i gefnogi'r SAC a'r RhC wrth osod eu mesurau perfformiad. Mae hwn yn weithgaredd parhaus ac mae nifer o welliannau wedi'u gwneud i gryfhau'r mesurau yn ystod y flwyddyn, o ran cadernid cyffredinol ac wrth fesur canlyniadau. Bydd gwaith pellach o gefnogi a gosod mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn digwydd fel rhan o'r broses Cynllunio Busnes a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2024. |

## Bwrw Ymlaen – Adolygiad Rheoli Asedau Strategol

| Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Uwch Argymhelliad | Disgrifiad Argymhelliad | Ymateb SAC | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad dyledus | Perfformiad | Swyddogion cyfrifol | Diweddariad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Ymgysylltu cynnar ar newidiadau allweddol i ddefnydd o asedauDylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n gynnar ag Aelodau'r Cyngor, y Grwp Arweinyddiaeth ehangach, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill ar yr effaith y bydd newidiadau allweddol yn ei Strategaeth Waith Hybrid yn ei chael ar rai o asedau allweddol y Cyngor, fel swyddfeydd Penmorfa a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer sut y bydd dinasyddion yn cael mynediad at wasanaethau. | Datblygwyd y Strategaeth Hybrid a'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro trwy ymgysylltu'n sylweddol â'r gweithlu. Mae hyn wedi llywio'r Gweithgor Ffyrdd Newydd o Weithio ar batrymau gweithio cyfredol a disgwyliedig yn ogystal â'r lefel a'r math o ofod desg sydd ei angen. O ganlyniad, mae Mannau Hybrid Peilot wedi'u sefydlu i helpu i fonitro dulliau newydd mewn modd ymarferol.<br>Bydd hyn yn helpu i fesur lefel y gofod a'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio gofod a darparu gwasanaethau'n wahanol. Bydd y cam nesaf yn cynnwys ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys partneriaid allanol a dinasyddion i ystyried opsiynau a gwneud y defnydd gorau o asedau'r Cyngor. | Derbyniwyd | 30/06/2022 | 31/03/2024 | ✔ | Russell Hughes-Pickering / New Ways of Working Group | Mae gweithredu wedi'i gwblhau gyda threfniant ar waith i reoli'r asedau ail-bwrpasu ac ymgynghori lle bo hynny'n briodol. Yn dilyn cyfnod peilot hybrid cychwynnol, cytunodd yr Aelodau (ym mis Medi 2023) i fabwysiadu gweithio hybrid fel opsiwn parhaol i weithwyr allu gweithio mor effeithlon o bell ag yn y swyddfa. Yn ystod y cyfnod hwn casglwyd data ar archebion desg ac ystafelloedd cyfarfodydd ac adborth gan staff. Mae hyn wedi helpu i lywio'r gofyniad gofod at ddibenion y Cyngor a faint o le y gellid ei roi at bwrpas eraill. Casglwyd gwybodaeth hefyd drwy arolwg ymgysylltu a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2023. Daeth yr arolwg hwn yn casglu barn y cyhoedd ynghylch y posibilrwydd o ailddefnyddio'r adeiladau i ben. Mae gofod yng Nghanolfan Rheidol yn cael ei ddefnyddio dros dro gan Hywel Dda ar gyfer darparu gwasanaethau ffisiotherapi a gofod swyddfa sy'n rhyddhau lle yn Ysbyty Bronglais i wneud gwaith ar gyfer uned ddydd cemotherapi / oncoleg. Yn unol â Strategaeth Llesiant Gydol Oes y Cyngor, mae rhan o Benmorfa wedi cael ei hail-bwrpasu i ddarparu Canolfan Byw'n Annibynnol. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal, fel y bo'n briodol, ar gyfer adleoli gwasanaethau eraill. |
| A2 | Gweledigaeth a chynllunio'r gweithlu Gellid cryfhau prosesau'r Cyngor o safbwynt cynllunio ei asedau, monitro a llywodraethu drwy:• adnewyddu ei 2018 a'i Gynlluniau Gwasanaeth Rheoli Asedau Corfforaethol, • sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'r weledigaeth hirdymor strategol gyfredol ar gyfer asedau a'u bod wedi'u hintegreiddio i gynllunio busnes; • datblygu cynlluniau cadarn i reoli'r risgiau a nodwyd gan Arolwg Cyflwr 2019; a • Mynegi'n glir sut mae'n defnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy i lunio strategaethau a chynlluniau sy'n canolbwyntio ar asedau yn y dyfodol. | Cydnabyddir y gellir gwneud gwelliannau i gael gweledigaeth hirdymor fwy strategol a chynllun ar gyfer ei asedau. Bydd yn gwneud hyn drwy:<br>• Adnewyddu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor.<br>• Adolygu'r trefniadau rheoli asedau a datblygu asedau fel eu bod yn fwy strategol a syml.<br>• Ddatblygu rhaglen gyfalaf 10 mlynedd ar gyfer cynnal, gwella a gwaredu asedau'r Cyngor lle bo'n briodol. | Derbyniwyd | 30/06/2022 | 31/03/2024 | ✔ | Russell Hughes-Pickering | Mae trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli asedau wedi'u cwblhau. Cytunodd y Cabinet ar adolygiad o'r trefniadau ar gyfer rheoli a datblygu asedau ym mis Ionawr 2023. Mae cyfarfod y Grwp Datblygu wedi cael ei gynnal ers pryd y cafodd Rhaglen Datblygu tymor hwy ei pharatoi. Mae hyn yn helpu i ddatblygu dull tymor hwy o ymdrin ag asedau'r Cyngor. |
| A3 | Meincnodi Dylai'r Cyngor ddatblygu a defnyddio data meincnodi pellach i: • gefnogi datblygiad ei gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a Gwasanaeth yn naturiol; ac i• gryfhau ei drefniadau cynllunio busnes a hunanasesu. | Bydd y Cyngor yn adolygu ei ddefnydd o ddata i lywio'r gwaith o baratoi cynlluniau ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwella trefniadau yn y dyfodol. | Derbyniwyd | 30/06/2022 | 31/03/2024 | ✔ | Russell Hughes-Pickering | Gwnaed gwelliannau a byddant yn parhau wrth i gynlluniau ac adolygiadau gael eu cynnal. Mae'r Cyngor yn parhau i ystyried ystod o ddata wrth reoli asedau i ddiwallu ei anghenion. Bydd gwaith pellach yn digwydd wrth i Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth gael eu hadolygu yn 2024/25. |